

Cofion

- Gyda thristwch a siom y daeth y newydd am farwolaeth dau o aelodau Capel Llanefydd ddydd Llun diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Mrs Morfudd Roberts, Bethan, David, Trebor a Tomos a gweddill y teulu ym marwolaeth Mr Robert P. Roberts, Bryn Banadl. Cydymdeimlwn hefyd â'i chwaer, Elizabeth Jones, sy'n aelod yng Nghapel y Groes ond yn byw yn Nhrefnant erbyn hyn. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan ddeisyf y cânt adnabod flas y tangnefedd na wŷr y byd amdano.
- Ac yna fe ddaeth y newydd am farwolaeth Harold Pierce, Gwelfryn, un a roddodd bron i 40 mlynedd o wasanaeth fel blaenor yng Nghapel Llanefydd. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Mrs Enid Pierce, Dilwyn, Arwyn, Cledwyn, Alun a Dylan a'u teuluoedd hwythau wrth inni gofio gydag anwydeb amdano yntau. Cyflwynwn y teulu hwn hefyd i ofal Duw gan hyderu y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt.
- Cofiwch hefyd am Wyn Jones ac Enid Jones (Nantglyn) a Gwilym Jones (Tanyfron) a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli eu chwaer, Gwen. Wrth gydymdeimlo, yr ydym hefyd yn gweddïo y bydd Duw yn agos at y teulu oll a dymunwn yr un nodedd a nerth iddynt hwythau.
- Yn Ysbyty Glan Clwyd y mae Margaret Jones (Llansannan) a Menna Streeter (Henllan), tra bod Heulwen Roberts (Henllan) yn ei hôl yn yr Inffirmari. Fe dreuliodd Guto Jones (Llansannan) ychydig nosweithiau yn Ysbyty Glan Clwyd hefyd, ond da deall ei fod ef a Trefor Jones (Cefn Meiriadog) bellach wedi cael dod adref. Yr ydym yn cofio amdanynt oll, ac yn eu hamgylchynu yn ein gweddïau, gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn ac y byddant yn teimlo'n well yn fuan iawn. Mae eraill o'n plith sydd heb fod yn dda hefyd. Mae ein cofion a'n dymuniadau am wellhad buan yn cael ei estyn iddynt hwythau.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Eirlys Owen (Llanefydd) ar ddathlu pen-blwydd arbennig dydd Gwener nesaf!

GAIR I'CH ATGOFFA

Arian Sasiwn y Chwiorydd

Os ydych yn dymuno cyfrannu tuag at Gasgliad y Chwiorydd, bydd trysorydd y chwiorydd yn eich eglwys yn ddiolchgar iawn o dderbyn eich cyfraniad **HEDDIW**, os gwelwch yn dda. Diolch yn fawr i bawb sydd eisoes wedi cyfrannu.

Gwaith Cwrs Ysgolion Sul Henaduriaeth Dyffryn Clwyd 2012

Cofiwch bod angen i'r cyweithiau fod yn barod **ERBYN EBRILL 16EG**. Mwy o fanylion gan eich Arolygwr.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 8^{fed} Ebrill 2012

Mae Iesu'n fuddugol...

Molwch ef!

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i bawb ohonoch i'r oedfaon ar y Sul arbennig hwn. Diwrnod ydyw i ddathlu atgyfodiad ein Harglwydd, diwrnod o ddiolch am ei aberth drud a diwrnod i fwynhau addoli ein Duw byw. Boed i ni brofi o'r llawenydd hwnnw o wybod bod ein Gwarddwr yn fyw ac yn ein caru, a chrefu am i'r un Ysbryd a gododd Iesu o farwolaeth i fywyd weithio ynom, i ninnau gael profi'r bywyd newydd hwnnw a dderbyniodd ei ddisgyblion.

Yn ystod yr wythnos, bu Gŵyl New Word Alive yn cael ei chynnal ym Mhrestatyn, gyda miloedd o Gristnogion o bob rhan o Brydain yn dod ynghyd i addoli a dysgu gyda'i gilydd. Bu criw o'r Fro yn y babell wyntog nos Fercher a phrofiad hyfryd oedd cael bod ymhlith tyrfa anferth yn moli Duw. Yn y cyfan, anodd oedd peidio tybio mai rhagflas bychan ydoedd o'r hyn sydd i ddod i blant Duw yn nhragwyddoldeb fel y gwelwn yn Natguddiad 7:9-10 lle mae pobl o bob cenedl, llwyth ac iaith yn datgan: "I'n Duw ni sy'n eistedd ar yr orsedd, ac i'r Oen y perthyn gwarddigaeth!"

Un o'r negeseuon clir a rannodd y pregethwr y noson honno oedd bod yr hyn a ddigwyddodd i Grist ar ddiwedd ei gyfnod ar y ddaear, nid yn unig yn ein rhyddhau o bechodau'r gorffennol ac yn sicrhau dyfodol bendigedig i ni, ond ei fod hefyd yn dod a bendithion lu i ni rwan – yn y presennol. Mae Iesu wedi marw ac atgyfodi er mwyn i ni allu dod at Dduw yn hyderus, a dderbyn ei Ysbryd Glân i'n nerthu a'n calonogi waeth beth yw'r amgylchiadau a'r siomedigaethau ddaw i'n rhan. Dychmygwch sut oedd y disgyblion cyntaf yn teimlo – wedi bod yn dilyn Iesu yn agos am dair blynedd, ac yna maent yn gweld eu hathro, eu ffrind, a'u Harglwydd yn cael ei ddienyddio mewn modd erchyll. Ond, wedi bore'r trydydd dydd beth ddigwyddodd? O dipyn i beth maent yn dod i weld fod addewidion Iesu oll yn wir, maent yn cael eu rhyfeddu gan allu Duw, ac wrth i'r Ysbryd Glân wneud Ei waith ynddynt, maent yn datblygu i ddod yn bobl newydd – pobl wedi'u neilltuo i Grist ac yn llawn sêl dros weithredoedd da. Y Pasg hwn, gweddïwn y byddwn ninnau yn profi'r un gobaith, hyder ac ysgogiad i weithredu ag y gwnaeth y disgyblion cyntaf, a dod i wybod yn bersonol na neb na dim ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro Arbennig** dan ofal ieuencid Llanefydd, gyda Rhodri yn pregethu yng **Nghapel Llanefydd** am 6.00.
- Llun-Gwen • **LLANW** - Gŵyl deuluol yng Nghei Newydd rhwng Ebrill 9fed-13eg ar gyfer Cristnogion led-led Cymru – plant, ieuencid, teuluoedd, myfyrwyr, pobl sengl a pharau o bob oed! Mwy o fanylion ar y wefan www.llanw.org neu drwy holi Rhodri.
- Iau • **Astudiaeth Feiblaidd** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Andras Iago yn arwain oedfa yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 2.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Llanfair.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol am 10.00 a bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.
- Sul nesaf Bydd y Parch R W Jones yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch Gareth Edwards yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun yn Saron am 10.00. Cynhelir yr Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch R W Jones yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Mr David Owens yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Gwasanaeth Teuluol y Pasg yn Llanefydd am 10.00 ac oedfa arbennig i'r Fro dan ofal yr ieuencid yn Llanefydd am 6.00. Bydd oedfa wedi ei threfnu yng Nghewn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith **yng Nghewn Berain** am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

I ddod

- **Chwirydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod ar Ebrill 19eg yn Festri Capel Mawr, Dinbych am 7.30. Y siaradwr fydd Mr Elfyn Pritchard.
- **Sasiwn Genhadol y Chwirydd** yn cyfarfod yng Nghapel Heol China, Llanidloes, dydd Mercher, Mai 2il.
- **Darlith ar "William Salesbury - ei gyfnod a'i gyfraniad"** yn Llansannan, nos Iau Dyrchafael, sef Mai 17eg am 7.30 gyda Dr Iwan Rhys Edgar, Pwllheli yn darlithio. Croeso cynnes i bawb.
- **Noson ddwyieithog i athrawon Ysgol Sul, arweinwyr plant a ieuencid a gweithwyr ysgolion** nos Fercher, Mai 23ain yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug am 7.00. Am fwy o fanylion, ffoniwch Gwyn Rhydderch ar 07979 860537.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau